Asiantaeth Trwyddedu
Gyrwyr a Cherbydau

**INF46W**
**Gwasanaethau Cerbyd**

# Rhifau cofrestru a chi




Am ragor o wybodaeth ewch i
**www.gov.uk/personalised-vehicle-registration-numbers**

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE
RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID
CSE
INVESTORS IN PEOPLE™
We invest in people Gold
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Aur

11/23

## Cynnwys

**Tudalen**


1. Rhifau cofrestru 3
2. Arddangos rhifau cofrestru 3
3. Prynu rhif cofrestru personol 3
4. Beth ydych chi'n ei gael am eich arian? 4
5. Ble arall allwch chi gael rhif cofrestru? 4
6. Gwerthu cerbyd sydd â rhif cofrestru personol 5
7. Trosglwyddo a chadw rhifau cofrestru (i'w defnyddio) 5
8. Mae eich hawl i aseinio neu i gadw'ch rhif cofrestru ar fin dod i ben 7
9. Ychwanegu neu newid manylion yr enwebai ar eich tystysgrif hawl neu ddogfen gadw 7
10. Nid ydych am aseinio'r rhif cofrestru bellach 7
11. Mae eich cerbyd wedi'i brydlesu 8
12. Mae eich cerbyd yn cael ei ddwyn a heb gael ei ganfod 8
13. Mae eich cerbyd y tu hwnt i'w drwsio 9
14. Nid yw'ch cerbyd yn bodoli bellach neu mae wedi'i sgrapio 9
15. Beth sy'n digwydd i'r rhif cofrestru os ydych yn allforio'ch cerbyd? 10
16. Cadw'r rhif cofrestru os ydych chi am ailadeiladu neu drosi'ch cerbyd 10
17. Trosglwyddo a chadw rhif cofrestru hen gerbyd sydd heb gael ei gofrestru gyda DVLA 10

Gwybodaeth bellach 11

## 1. Rhifau cofrestru

Modd o adnabod cerbydau yw rhifau cofrestru. **Mae pob rhif cofrestru yn eiddo i'r Ysgrifennydd Gwladol,** ac yn cael ei dyrannu i gerbyd (a gellir eu tynnu'n ôl) fel rhan o'r broses o gofrestru a threthu cerbydau.

## 2. Arddangos rhifau cofrestru

Mae'n rhaid arddangos rhifau cofrestru'n gywir, yn unol â'r gyfraith. Mae'n rhaid ichi fynd at Gyflenwr Platiau Rhif Cofrestredig (RNPS) i gael plât rhif. Mae rhestr o gyflenwyr RNPS ar gael yn
**www.gov.uk/number-plate-supplier**

Os nad ydych chi'n cadw at y gyfraith o ran bylchau rhwng llythrennau a rhifau ar blatiau rhif, arddull a maint, fe ellid gosod dirwy arnoch o hyd at £1000, ac mae'n bosibl y bydd y rhif cofrestru'n cael ei ddileu yn barhaol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn ein taflen. **Platiau Rhif a Rhifau Cofrestru Cerbyd (INF104W)** – y gallwch ei lawrlwytho o **www.gov.uk**

**Ni allwch chi ddefnyddio rhif cofrestru i wneud i'ch cerbyd ymddangos yn iau nag ydyw mewn gwirionedd.**

## 3. Prynu rhif cofrestru personol

Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

**Rhifau cofrestru**
**Personol**

Mae gennym ni ein cynllun gwerthu ein hunain, sy'n cynnig ystod o rifau cofrestru nad ydynt erioed wedi'u cyhoeddi. Trwy'r cynllun hwn, gallwch chi brynu'r hawl i gael rhif cofrestru penodol wedi'i aseinio i (ei roi ar) gerbyd.

Ewch i'n gwefan yn **www.dvlaregistrations.dvla.gov.uk** i weld pa rifau cofrestru personol sydd gennym ni ar gael a beth yw eu cost. Mae ein prisiau'n dechrau o £250, ac yn cynnwys TAW a'r 'ffi aseinio' (sef y ffi rydym ni'n ei chodi i roi'r rhif cofrestru ar gerbyd). Pan fyddwch chi'n barod, gallwch chi brynu ar-lein 24 awr y dydd.

Rydym yn cynnal pum arwerthiant traddodiadol a thri ocsiwn amserol pob blwyddyn.

Mae manylion llawn pob ocsiwn yn cael eu hysbysebu yn y wasg ac ar ein gwefan. Os hoffech chi gael mwy o wybodaeth am ein hocsiynau, ewch i **www.dvlaregistrations.dvla.gov.uk**

**Ni ellir defnyddio rhifau cofrestru sy'n cael eu prynu dan ein cynllun gwerthu ar gerbydau oni bai eu bod nhw wedi'u cofrestru (neu ar fin cael eu cofrestru), eu trethu (neu yn cael eu trethu) neu fod HOS mewn grym ar adeg y cais a'u defnyddio yn y DU.**

## 4. Beth ydych chi'n ei gael am eich arian?

Byddwch chi'n prynu'r hawl i gael y rhif cofrestru wedi'i aseinio i gerbyd sydd wedi'i gofrestru yn eich enw chi, neu yn enw rhywun arall (yr enwebai).

**Nid oes gan yr enwebai unrhyw hawl i'r rhif cofrestru tan i'r rhif hwnnw gael ei aseinio i'w gerbyd.**

Byddwn ni'n anfon 'tystysgrif hawl' (V750W) atoch chi. Bydd hon yn cynnwys manylion:

- y rhif cofrestru
- y prynwr a'r enwebai
- y dyddiad y daw'r hawl i aseinio'r rhif cofrestru i ben (gweler adran 8)

Gallwch chi ymestyn yr hawl am 10 mlynedd ychwanegol. Gallwch wneud cais i fyny at 28 diwrnod cyn y dyddiad dod i ben. Gallwch chi ychwanegu enwebai (os nad oes gennych chi un), neu newid enwebai hyd at yr amser pan fydd y rhif cofrestru'n cael ei aseinio, neu ar yr un pryd. Ceir rhagor o fanylion am hyn ar y V750W.

## 5. Ble arall allwch chi gael rhif cofrestru?

Mae delwyr rhifau cofrestru'n hysbysebu yn y wasg genedlaethol neu mewn cylchgronau arbenigol, ac mae gan lawer ohonyn nhw eu gwefan eu hunain. Mae'n bosibl y byddan nhw'n gwerthu rhifau cofrestru o'u stoc eu hunain, neu gallent weithredu fel asiant ar ran modurwyr sydd am werthu rhif cofrestru eu cerbyd eu hunain. Mae'n bosibl hefyd y bydd delwyr yn gwerthu rhifau cofrestru y maen nhw wedi'u prynu oddi wrthym ni, ond **nid** ydyn nhw'n gweithredu ar ran DVLA.

## 6. Gwerthu cerbyd sydd â rhif cofrestru personol

Peidiwch â gwerthu neu gael gwared ar eich cerbyd cyn ichi symud y rhif cofrestru personol i'ch cerbyd newydd (ei drosglwyddo) neu ei atal dros dro (ei gadw).

Os ydych yn gwerthu neu'n trosglwyddo eich cerbyd cyn inni roi V5CW newydd ichi gyda rhif cofrestru newydd, bydd y rhif cofrestru personol yn pasio i'r ceidwad cofrestredig newydd.

Rydym naill ai yn:

- nodi (aseinio) cerbyd gyda rhif cofrestru
- ei gadw (dal) ar gyfer y ceidwad cofrestredig

Y ceidwad cofrestredig yw'r unig berson sydd â hawl i wneud cais i drosglwyddo neu gadw'r rhif cofrestru. Felly cofiwch, pan fyddwch am werthu eich cerbyd sy'n arddangos plât personol os nad ydych yn ei symud... byddwch yn ei golli.

## 7. Trosglwyddo a chadw rhifau cofrestru (i'w defnyddio)

### Trosglwyddo rhif cofrestru

Mae trosglwyddo rhif cofrestru'n caniatáu iddo gael ei symud o un cerbyd i gerbyd arall. Ceidwad cofrestredig cerbyd yn unig all wneud cais i drosglwyddo'i rif cofrestru. **Pan gofrestrir cerbyd â rhif cofrestru arall, bydd rhif cofrestru cyfredol y cerbyd hwnnw'n cael ei dynnu'n ôl, oni bai eich bod yn gwneud cais i'w drosglwyddo neu ei gadw ar yr un pryd.**

### Cadw rhif cofrestru

Mae cadw rhif cofrestru'n caniatáu symud rhif o gerbyd a'i gadw ar ddogfen.

Gallwch gadw rhif cofrestru am 10 mlynedd.

Ceidwad cofrestredig cerbyd yn unig sy'n cael gwneud cais i gadw rhif cofrestru a dewis dod yn grantî neu roi manylion rhywun arall.

Y grantî yw'r sawl sydd â'r hawl i'r rhif cofrestru. Mae gan y grantî yr hawl i aseinio'r rhif cofrestru i gerbyd (ei osod ar gerbyd) sydd wedi'i gofrestru yn enw rhywun arall. Mae'r person hwn yn cael ei adnabod fel enwebai.

Byddwn ni'n cyhoeddi **'dogfen gadw' (V778W)** i'r grantî. Bydd hon yn cynnwys manylion:

- y rhif cofrestru
- yr enwebai (os nodir un yn y cais)
- dyddiad erbyn pryd y dylai'r rhif cofrestru fod wedi'i aseinio

**Nid oes gan yr enwebai unrhyw hawl i'r rhif cofrestru tan i'r rhif hwnnw gael ei aseinio i'w gerbyd.**

Unwaith y bydd y grantî wedi aseinio'r rhif cofrestru i'w gerbyd neu i gerbyd yr enwebai, mae'r hawl i'r rhif cofrestru'n mynd i geidwad cofrestredig y cerbyd hwnnw.

## Sut i wneud cais i drosglwyddo neu gadw rhif cofrestru

Os hoffech gymryd y rhif cofrestru oddi ar gerbyd a'i gadw ar ddogfen gadw i fyny at 10 mlynedd, gallwch wneud hwn ar-lein yn **www.gov.uk/cymryd-rhif-cofrestru-preifat-oddi-ar-gerbyd** (y ffi yw £80).

Gallwch hefyd drosglwyddo'r rhif cofrestru i gerbyd arall ar-lein yn **www.gov.uk/cymryd-rhif-cofrestru-preifat-oddi-ar-gerbyd** (y ffi yw £80). Gallwch gwblhau'r broses drwy roi'r rhif cofrestru ar y cerbyd ar unwaith yn **www.gov.uk/rhoi-rhif-cofrestru-preifat-ar-gerbyd**

Fel arall, bydd angen ichi, fel y ceidwad cofrestredig, lenwi'r ffurflen V317W. Mae'r ffurflen hon yn cynnwys rhagor o wybodaeth ynghylch trosglwyddo neu gadw rhif cofrestru. Gallwch gael y ffurflen ar **www.gov.uk/dvlaforms** neu wrth DVLA.

## Rhifau cofrestru na ellir eu trosglwyddo

Gwiriwch eich Tystysgrif Gofrestru Cerbyd (V5CW) cyn gwneud cais, i sicrhau bod modd trosglwyddo'r rhif cofrestru. Os yw'r V5CW yn nodi na ellir trosglwyddo'r rhif cofrestru, ni allwch chi ei drosglwyddo na'i gadw.

## Rhifau cofrestru sy'n dechrau â 'Q'

Os oes gan gerbyd rif cofrestru sy'n dechrau â'r rhagddodiad 'Q' neu rhagddodiad 'QNI', ni ellir trosglwyddo'r rhif cofrestru ac mae'n rhaid iddo aros ar y cerbyd.

## 8. Mae eich hawl i aseinio neu i gadw'ch rhif cofrestru ar fin dod i ben

**Mae'n rhaid ichi naill ai aseinio'r rhif cofrestru neu wneud cais am estyniad cyn i hyn ddigwydd.** Bydd eich V750W neu'ch V778W yn dweud wrthoch chi sut i wneud hyn.

**Byddwch chi'n colli'ch hawl os byddwch chi'n oedi gormod cyn gweithredu.**

Gallwch chi ymestyn yr hawl i rif cofrestru am 10 mlynedd.

## 9. Ychwanegu neu newid manylion yr enwebai ar eich tystysgrif hawl neu ddogfen gadw

Gallwch wneud hyn, cyn belled â bod eich tystysgrif neu'ch dogfen yn parhau i fod yn ddilys. Bydd eich V750W neu'ch V778W yn dweud wrthoch chi sut i wneud hyn.

## 10. Nid ydych am aseinio'r rhif cofrestru bellach

Gallwch wneud cais am ad-daliad o'r ffi aseinio (os wnaethoch dalu ffi aseinio ar yr adeg wnaethoch brynu neu'n cadw'r rhif cofrestru).

Os oes gennych dystysgrif sy'n ddilys am 10 mlynedd, gallwch wneud cais am ad-daliad cyn y dyddiad dod i ben ar eich tystysgrif V750W neu V788W.
Ar gyfer unrhyw dystysgrif arall, gallwch wneud cais am ad-daliad o fewn chwe mlynedd i'r dyddiad dod i ben.

**Unwaith y bydd y dystysgrif wedi dod i ben, byddwch yn colli'r hawl i arddangos y rhif cofrestru.**

## 11. Mae eich cerbyd wedi'i brydlesu

Ceidwad cofrestredig y cerbyd yn unig sy'n cael gwneud cais i drosglwyddo neu i gadw rhif cofrestru. Y cwmni prydlesu (os mai nhw yw'r ceidwad) fyddai â'r hawl i drosglwyddo neu i gadw'r rhif cofrestru. Os ydych chi dal am aseinio rhif cofrestru sydd ar gerbyd wedi'i brydlesu, gwiriwch fod y cwmni prydlesu'n fodlon ichi wneud hynny, a'u bod yn barod i gydweithredu pan ddaw'n bryd i drosglwyddo neu gadw'r rhif cofrestru yn y dyfodol.

## 12. Mae eich cerbyd yn cael ei ddwyn a heb gael ei ganfod

Ar ôl blwyddyn gallwch chi wneud cais i gael ei rif cofrestru **wedi'i drosglwyddo i'ch cerbyd newydd,** cyn belled ag y bodlonir amodau penodol y cynllun trosglwyddo. Mae'n rhaid i'r canlynol fod yn berthnasol hefyd:

- rhaid bod yr heddlu wedi cael gwybod am y lladrad
- rhaid bod gan DVLA gofnod fod y cerbyd wedi'i ddwyn, ers o leiaf 12 mis (dylai'r heddlu rhoi gwybod i DVLA ar eich rhan) ond dim am fwy na thair blynedd
- roedd gan y cerbyd MOT dilys ar yr adeg cafodd ei ddwyn
- roedd gan y cerbyd treth cerbyd ddilys ar adeg y lladrad

I wneud cais, neu i gael mwy o wybodaeth, ysgrifennwch i:

**Rhifau Cofrestru Personol**
DVLA
Abertawe
SA99 1DS

Bydd angen ichi roi'r rhif cofrestru.

Os yw'ch cerbyd yn cael ei ganfod a rydych chi neu'ch cwmni yswiriant yn penderfynu ei werthu neu ei ddinistrio, bydd angen ichi wneud cais i gadw neu drosglwyddo eich rhif cofrestru ar-lein yn **www.gov.uk/cymryd-rhif-cofrestru-preifat-oddi-ar-gerbyd** neu ddefnyddio'r ffurflen V317W cyn i'r cerbyd cael ei waredu.

## 13. Mae eich cerbyd y tu hwnt i'w drwsio

Gallwch dal wneud cais i drosglwyddo neu i gadw'r rhif cofrestru, cyn belled â:

- bod y cerbyd ar gael i'w archwilio (byddwn ni'n gofyn hefyd am adroddiad peiriannydd y cwmni yswiriant)
- eich bod yn gallu bodloni holl amodau'r cynlluniau trosglwyddo neu gadw

**Pwysig – os ydych chi am drosglwyddo neu gadw'r rhif cofrestru, mae'n rhaid ichi sicrhau bod eich cwmni yswiriant yn gwybod bod rhaid i'r cerbyd fod ar gael inni ei archwilio. Os yw'ch cwmni yswiriant yn setlo'ch hawliad ac yn gwerthu'r cerbyd i adennill costau cyn i'r rhif cofrestru gael ei drosglwyddo neu ei gadw'n iawn, fe fydd yn trosglwyddo gyda'r cerbyd i'r ceidwad newydd ac fe fyddwch chi'n colli'ch hawl.**

Unwaith y byddwch chi wedi llwyddo i drosglwyddo neu gadw'ch rhif o'r cerbyd y nodwyd ei fod y tu hwnt i'w drwsio, rhowch wybod i'ch cwmni yswiriant am y newid yn y rhif cofrestru, ac anfonwch y **V5CW** newydd atyn nhw. Os yw'ch cwmni yswiriant yn bwriadu gwerthu'r cerbyd i adennill costau, mae'n rhaid i'r rhif cofrestru newydd fod wedi'i arddangos ar y cerbyd.

## 14. Nid yw'ch cerbyd yn bodoli bellach neu mae wedi'i sgrapio

**Unwaith nad yw'r cerbyd yn bodoli bellach, bydd ei rif cofrestru'n cael ei dynnu'n ôl.**

Os yw'ch cerbyd wedi'i sgrapio, ni fyddwch chi'n gallu trosglwyddo'i rif cofrestru. I gael rhagor o wybodaeth ewch i **www.gov.uk**

## 15. Beth sy’n digwydd i’r rhif cofrestru os ydych yn allforio’ch cerbyd?

Yn ôl y gyfraith, mae’n rhaid ichi ddweud wrthym ni os ydych chi’n mynd â’ch cerbyd dramor am fwy na 12 mis.

Os ydych chi am drosglwyddo neu gadw’r rhif cofrestru, mae’n rhaid ichi wneud hynny cyn i’r cerbyd adael y DU. Ni allwch chi wneud cais unwaith y bydd y cerbyd wedi gadael y wlad.

Dylech chi gael cyngor wrth Ymholiadau Cwsmeriaid, **mewn da bryd cyn** dyddiad allforio’r cerbyd. Ffoniwch 0300 790 6802 neu 0300 790 6819 am y llinell Gymraeg. Mae llinellau ar agor rhwng 8am a 7pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhwng 8am a 2pm ar ddydd Sadwrn.

## 16. Cadw’r rhif cofrestru os ydych chi am ailadeiladu neu drosi’ch cerbyd

Nid yw’n bosibl trosglwyddo pob rhif cofrestru. Bydd eich V5CW yn dweud a allwch chi drosglwyddo’r rhif cofrestru ai peidio. Os oes modd ichi wneud hynny, dylech chi ystyried:

- ei drosglwyddo i gerbyd arall
- ei gadw ar ddogfen **cyn malu’r cerbyd, ei newid neu ei drosi.** Os na wnewch chi hyn, mae’n bosibl y byddwch chi’n colli’ch hawl i’r rhif cofrestru.

I gael rhagor o wybodaeth, gwelwch ein taflen Canllawiau ar gyfer cofrestru cerbyd sydd wedi’i ailadeiladu neu wedi’i newid llawer a cherbydau cit (INF26).

## 17. Trosglwyddo a chadw rhif cofrestru hen gerbyd sydd heb gael ei gofrestru gyda DVLA

Mae’n bosibl ichi gofrestru’r cerbyd â DVLA, ond ni fyddwch chi’n gallu trosglwyddo na chadw’r rhif cofrestru.

Am ragor o fanylion ewch i **www.gov.uk** neu darllenwch daflen Sut i gofrestru eich ‘hen’ gerbyd (V848).

## Gwybodaeth bellach

I gael rhagor o wybodaeth, gallwch ymweld â **www.gov.uk/personalised-vehicle-registration-numbers**

Gallwch chi hefyd ffonio Ymholiadau Cwsmeriaid (Cerbydau) ar **0300 790 6802** neu **0300 790 6819** am y llinell Gymraeg rhwng 8am a 7pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhwng 8am a 2pm ar ddydd Sadwrn.

**Roedd yr holl ffioedd a nodwyd yn gywir ar adeg argraffu'r llyfryn hwn.**

# Prynu cerbyd?

Nid yw'r dreth yn drosglwyddadwy mwyach felly rhaid i chi ei drethu cyn i chi ei ddefnyddio.

**www.gov.uk/vehicletaxrules**